


# Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## Offeryn ar gyfer Ymarfer a Darpariaeth Effeithlon

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

PARTNERIAETH CYMRU DYSGU OEDOLION
ADULT LEARNING PARTNERSHIP WALES

# Cynnwys

**Cliciwch yr eitem cynnwys i gael eich cyfeirio at yr adran.**


**Diben yr offeryn**

- Am yr offeryn
- Sut y cafodd yr offeryn ei ddatblygu?
- Beth mae'r adnodd yn ei gynnwys?
- Trosolwg o themâu

**Amcanion a nodau a gaiff eu rhannu**

- Amcanion Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned

**Sut i ddefnyddio'r offeryn yn effeithlon**

- Sut mae'r offeryn yn gweithio?

**Offer ar gyfer ymarfer a darpariaeth effeithlon**

- Cynllunio strategol
- Darpariaeth
- Cyrraedd ac ennyn diddordeb dysgwyr
- Ansawdd
- Gweithlu




# Am yr offeryn

**Nod yr offeryn hwn yw cefnogi Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ledled Cymru i ddatblygu eu hymarfer mewn cydweithio.**

**Mae'r offeryn hwn yn:**

- eich galluogi i fapio sut ydych yn cydlynu dysgu oedolion yn y gymuned ar hyn o bryd, yn strategol ac yn weithredol, ac i ddynodi sut y gallwch ddatblygu eich ymarfer ymhellach.
- canolbwyntio ar y gweithgaredd ar y cyd a wnewch fel Partneriaeth, nid ar arferion partneriaid unigol.
- rhoi model cyson ac effeithiol ar draws Cymru, gan hefyd adlewyrchu gwahaniaethau lleol a rhanbarthol.

Comisiynwyd yr adnodd hwn gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei ddatblygu ar y cyd gyda'r sector, ac fe'i bwriedir i gael ei ddefnyddio gan bob Partneriaeth i gynorthwyo cyd-gynllunio, adolygu a gwelliant parhaus.

Mae Estyn yn cefnogi datblygiad a defnydd yr offeryn a'i fwriad i helpu Partneriaethau i werthuso eu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella ac i ddynodi eu blaenoriaethau gwella. Nid yw'r offeryn yn disodli fframwaith arolwg Estyn ac ni fwriedir i'r disgrifiadau lefel atgynhyrchu dyfarniadau blaenorol Estyn.

# Sut y cafodd yr offeryn ei ddatblygu?

**Cafodd yr offeryn ei baratoi ar y cyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Phartneriaethau lleol Dysgu Oedolion yn y Gymuned, gyda mewnbwn gan randdeiliaid cenedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, Addysg Oedolion Cymru, ColegauCymru, Gyrfa Cymru a Holex.**

**Mae'n defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth o:**

- adolygiad cyflym o dystiolaeth ar ymarfer presennol yng ngwaith partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru a modelau partneriaeth eraill o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol,
- chwe cyfweliad cwmpasu gyda rhanddeiliaid strategol cenedlaethol a gynigiodd amrywiaeth o safbwyntiau ar gryfderau a heriau cyfredol y Partneriaethau,
- cyfweliadau manwl gyda phump Partneriaeth leol a gafodd eu dewis i ddangos ystod o ymarfer sy'n esblygu mewn gweithio partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned,
- gweithdy wyneb yn wyneb ar gyfer Partneriaethau a rhanddeiliaid, i adolygu a datblygu'r offeryn
- dau gyfarfod o grŵp ymgynghori strategol y prosiect.

**Drwy'r gweithgareddau hyn, cafodd themâu a phynciau allweddol eu dynodi a chafodd cynnwys yr offeryn ei ddatblygu, ei adolygu a'i gytuno.**

# Beth mae'r adnodd hwn yn ei gynnwys?

Cafodd yr offeryn ei rannu yn bum maes sy'n adlewyrchu themâu lefel uchel ymarfer Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Adnabod anghenion
Cynllunio darpariaeth
Cefnogi cynnydd
Darpariaeth yn y Gymraeg

Marchnata a hyrwyddo
Allgymorth




Aelodaeth a chynrychiolaeth
Gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth
Cyllid
Strwythurau a phrosesau gweithredu
Arweinyddiaeth
Atebolrwydd
Llais Dysgwyr

Mesur deilliannau ac effaith
Gwella ansawdd

Recriwtio a chadw tiwtoriaid
Dysgu proffesiynol

# Trosolwg o themâu

## Cynllunio strategol

Mae'r thema yma yn asesu'r strwythurau lefel uchel, perthnasoedd a threfniadau gwaith sy'n sylfaen i weithrediad eich Partneriaeth. Mae'n eich annog i ddynodi sut y gellid cryfhau eich ymagwedd strategol gyffredinol i greu'r amodau ar gyfer cydweithio mwy effeithlon. Y meysydd allweddol a gaiff eu cynnwys yw: aelodaeth a chynrychiolaeth; gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth; cyllid; strwythurau a phrosesau gweithredu; rôl eich Partneriaeth wrth ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned; atebolrwydd eich partneriaid am gyflawni yr amcanion a gytunwyd gennych; a defnydd llais dysgwyr yng ngweithgareddau eich Partneriaeth.

## Provision

Ffocws y thema hon yw'r ffyrdd y mae'ch Partneriaeth yn gweithio i gyflawni'r cyfuniad a'r cydbwysedd cywir o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol. Mae'n eich cefnogi i ymchwilio sut y gallwch ddatblygu eich ymarfer yng nghyswllt: adnabod anghenion dysgu lleol; darpariaeth cynllunio; cefnogi cynnydd dysgwyr; a galluogi mynediad i ddarpariaeth Gymraeg.



## Cyrraedd ac ennyn diddordeb dysgwyr

Yn cynnwys marchnata a hyrwyddo dysgu ac allgymorth i gymunedau, mae'r thema hon yn edrych sut y gallai eich Partneriaeth gryfhau cydweithio rhwng partneriaid i gysylltu dysgwyr newydd a hefyd ddysgwyr presennol gyda chyfleoedd dysgu addas.

## Ansawdd



This theme explores your Partnership's effectiveness in two key areas.
First, it supports you to evaluate your approaches to measuring the outcomes and impact of partnership working and identify how you could develop these to generate more robust evidence and insights which can in turn inform future planning.
Secondly, it looks at the ways in which more collaborative approaches to quality improvement could add value to the practices of individual partners.

## Gweithlu



Gan adeiladu ar thema Ansawdd, mae ffocws y thema yma ar sut i wella cydweithio o fewn eich Partneriaeth yng nghyswllt cynllunio a datblygu gweithlu. Mae'n canolbwyntio ar: sut y gallai gweithio partneriaeth gefnogi recriwtio a chadw tiwtoriaid, ac ymagweddau ar y cyd ar ddatblygiad proffesiynol parhaus.

# Datganiad Amcanion

Caiff Dysgu Oedolion yn y Gymuned ei gyflwyno gan Bartneriaethau ledled Cymru. Drwy weithio ar y cyd ac yn strategol, mae'r Partneriaethau yn anelu i gynyddu i'r eithaf gyfraniad Dysgu Oedolion y Gymuned i gyflenwi'r weledigaeth strategol ar gyfer y sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru. Yn 2023-24, cytunodd y Partneriaethau ar y cyd ar y set ganlynol o amcanion. Bwriedir i'r rhain hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o ddiben y Partneriaethau a chefnogi Partneriaethau gyda diffinio a datblygu eu gwaith. Gallai'r rhain gael eu haddasu a'u gwella i weddu i gyd-destunau lleol.





Fel rhan o ddatblygiad yr offeryn hwn, cafodd Datganiad Amcanion ei ddatblygu i roi dealltwriaeth glir i Bartneriaethau o'u rôl a'u diben. Roedd cytuno ar ddatganiad amcanion a rannwyd yn gam pwysig tuag at roi man dechrau ar gyfer datblygu a hefyd weithredu yr offeryn hwn.

Gall y Datganiad Amcanion hwn hefyd fod yn adnodd sy'n sefyll ar ben ei hun y gellir ei ddefnyddio i godi proffil gwaith eich Partneriaeth yn lleol a chefnogi meihrin perthynas gyda phartneriaid newydd posibl a rhanddeiliaid strategol ehangach.

# Amcanion Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned

**Darparu arweinyddiaeth leol a rhanbarthol effeithlon ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, yn cynnwys hyrwyddo a chryfhau cyfraniad dysgu i flaenoriaethau polisi strategol Llywodraeth Cymru a Medr ar gyfer dysgu gydol oes, cyflogadwyedd, iechyd a llesiant, cymdeithasol, ymgysylltu dinesig a diogelu'r amgylchedd.**

**Dod â phartneriaid ynghyd i gynllunio ar y cyd ac yn strategol ac i gyflenwi darpariaeth ansawdd uchel seiliedig yn y gymuned i ddiwallu anghenion lleol, gyda ffocws ar:**

- Mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth allweddol llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol ac ESOL.
- Gwella a chynnal safonau ansawdd ar draws partneriaid.
- Mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth a lleihau dyblygu.
- Alinio cyllid o Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i gynyddu a gwella cyfleoedd.
- Datblygu a chefnogi llwybrau cynnydd i, drwy ac o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned sy'n berthnasol i anghenion ac amgylchiadau dysgwyr, yn cynnwys symud ymlaen i gyflogaeth, dysgu pellach, prentisiaethau a gwirfoddoli.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd a gynigir gan bartneriaid fel cynnig cydlynol, gan alluogi dysgwyr newydd a chyfredol i ddeall yr ystod lawn o fannau mynediad a llwybrau cynnydd posibl.
- Ymchwilio a datblygu mynediad i ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.
- Cydweithio ar gynllunio a datblygu gweithlu.
- Darparu llwybrau mynediad amrywiol yn ôl i ddysgu, gan weithio gyda mudadau gwirfoddol a chymunedol, ysgolion a gwasanaethau eraill i gyrraedd ac ennyn diddordeb oedolion.

# Sut mae’r offeryn yn gweithio?

Mae’r adnodd hwn yn eich gwahodd i fesur cam datblygu eich Partneriaeth mewn agweddau allweddol o weitho partneriaeth ym mhob un o’r pump maes. Mae pedair lefel:

**Dechreuol**

Mae eich Partneriaeth yn cydnabod yr angen am gydweithredu agosach a ffocws strategol yn y maes hwn ac yn cymryd y camau cyntaf.

**Yn datblygu**

Mae eich Partneriaeth wedi rhoi rhai systemau a phrosesau yn eu lle i alluogi mwy o gydweithio a gweithio strategol ac wedi dechrau rhoi’r rhain ar waith.

**Wedi sefydlu**

Mae gan eich Partneriaeth systemau a phrosesau cadarn yn eu lle ac mae gweithgaredd ar y cyd a strategol yn mynd rhagddo’n dda.

**Ymestynnol**

Mae eich Partneriaeth yn dangos tystiolaeth o’i heffaith ar ddysgwyr, cymunedau a/neu sefydliadau partner o’i ffyrdd o gydweithio strategol.

# Sut i ddefnyddio'r offeryn yn effeithlon

## 1. Cynlluniwyd y disgrifiadau yn yr offeryn i'ch helpu i ddynodi lle mae eich Partneriaeth ar hyn o bryd yng nghyswllt pob maes o weithio partneriaeth ac adnabod gweithio partneriaeth.

Maent yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn crynhoi nodweddion allanol Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned wrth iddynt ddatblygu. Ar gyfer pob pwnc, bydd y disgrifiadau yn y golofn ar y dde i'r lefel sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o sefyllfa bresennol a ffyrdd o weithio eich partneriaeth, yn rhoi arweiniad ac yn eich ysbrydoli ar sut i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Nod disgrifiadau ar y lefel 'ymestynnol' yw annog mwy o arloesedd ac uchelgais i sicrhau effaith ar gyfer dysgwyr a synergeddau drwy weithio partneriaeth effeithlon. Nid yw medru sôn am ganlyniadau ar y lefel hon yn golygu fod y gwaith wedi'i gwblhau ond dylai roi ysgogiad i ymchwilio sut y gallai fod yn sbardun i gyflawni hyd yn oed fwy.

## 2. Mae'r adnodd yn gweithio orau pan mae partneriaid sydd ag amrywiaeth o safbwyntiau a phrofiadau yn cymryd rhan a bod proses o gyd-greu wrth ei chwblhau.

Ystyriwch ef fel cyfle ar gyfer trafod, rhannu syniadau a chanfod pethau. Er ei bod yn debyg y bydd grŵp strategaeth eich Partneriaeth yn arwain ar weithio gyda'r adnodd, mae gweithio mewn partneriaeth gyda dysgwyr a'r rhai mewn swyddi gweithredol yn ogystal ag eraill tebyg i diwtoriaid, yn hanfodol. Yn y ffordd hon gall partneriaid wrando a rhoi barn ar gyfraniadau ei gilydd, a fydd yn helpu i roi darlun mwy onest a chrwn o'ch Partneriaeth a meithrin ymddiriedaeth. Gallai tystiolaeth a'r camau gweithredu a ddynodwyd drwy'r broses o lenwi'r offeryn gael eu casglu a'u cynnwys i gynorthwyo adroddiad hunanasesu eich Partneriaeth.

## 3. Mae'r offeryn hwn yn dangos taith ac yn cefnogi twf a newid.

Mae'n cydnabod na fydd eich Partneriaeth yn datblygu ar yr un cyflymder ar draws pob maes neu hyd yn oed ar draws pob pwnc o fewn unrhyw un maes. Disgwyliwch i broffil cyffredinol eich Partneriaeth o ran ei lefel datblygu fod yn anwastad. Bydd derbyn hyn yn cefnogi trafodaethau sy'n newid pwyslais ac yn onest a myfyriol am gam datblygu a blaenoriaethau eich Partneriaeth. Ni ddylech anelu i gael asesiad cyffredinol un gair o sefyllfa bresennol eich Partneriaeth, yn seiliedig ar y lefelau yn yr offeryn hwn.



# Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned: Offeryn ar gyfer Arfer a Darpariaeth Effeithlon

# 1 Cynllunio Strategol: Aelodaeth a chynrychiolaeth **Dyddiad:**

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Y Bartneriaeth yn cynnwys awdurdod lleol a choleg, gyda chyfraniad cyfyngedig gan ddarpar bartneriaid eraill. | ☐ | a) Gwnaed mapio i adnabod partneriaid creiddiol ac ehangach,a diffinio eu rôl o fewn y Bartneriaeth. | ☐ | a) Ymgysylltu strategol gyda phartneriaid creiddiol, ehangach ac ymylol a rolau partneriaid yn cael eu diffinio a'u deall. | ☐ | a) Y Bartneriaeth ag ethos aeddfed o gydweitho. | ☐ |
| b) Er bod cyswllt gyda darpar sefydliadau partner eraill, maent yn dibynnu ar berthynas bersonol yn hytrach nag ymrwymiad ffurfiol gan y sefydliad. | ☐ | b) Partneriaid creiddiol wedi ffurfioli ymrwymiad strategol i gydweithio a datblygu'r Bartneriaeth. | ☐ | b) Caiff aelodaeth ei adolygu'n rheolaidd i adnabod cyfleoedd i gryfhau ac ymestyn y Bartneriaeth. | ☐ | b) Cyfraniad rhanddeiliaid ehangach, er enghraifft gyflogwyr ac arweinwyr strategol mewn iechyd, yn rhoi buddion amlwg i ddysgwyr, a gall y Bartneriaeth roi tystiolaeth o hynny. | ☐ |
| c) Proffil lleol cyfyngedig sydd gan y Bartneriaeth fel endid ynddo'i hunan. | ☐ | c) Y Bartneriaeth yn cynnwys sylfaen ehangach o ddarparwyr eraill y mae'n gweithio gyda nhw i ateb anghenion penodol dysgwyr (e.e. trydydd sector, Adran Gwaith a Phensiynau, darparwyr cyflogadwyedd, Addysg Uwch). | ☐ | c) Dulliau yn eu lle i lais dysgwyr ddylanwadu ar waith y Bartneriaeth. | ☐ | c) Y Bartneriaeth yn adolygu blaenoriaethau polisi cenedlaethol a lleol yn rheolaidd i gynyddu effaith. | ☐ |
| d) Sianeli cyfathrebu rhwng partneriaid yn gyfyngedig. | ☐ | d) Gall cynrychiolaeth partneriaid ehangach mewn cyfafodydd Partneriaeth fod yn anghyson. Efallai nad yw staff ar lefel i wneud penderfyniadau neu gynrychioli'r Bartneriaeth yn effeithlon yn eu sefydliadau eu hunain. | ☐ | d) Partneriaid newydd yn cymryd rhan ac wedi eu recriwtio i lenwi'r bylchau a sicrhau bod cynrychiolaeth yn adlewyrchu anghenion lleol. | ☐ | d) Y Bartneriaeth yn sicrhau cynrychiolaeth weithgar ar grwpiau strategol gan godi ymwybyddiaeth o rôl Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar draws meysydd polisi ac adeiladu enw da o amgylch effaith ymyriadau addysg oedolion. | ☐ |
| | | e) Sianeli cyfathrebu rhwng partneriaid yn eu lle ond gallant fod yn ad hoc neu anghyflawn. | ☐ | e) Partneriaid a chyfranogwyr yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth yn gyson a gall y cyfranogwyr wneud penderfyniadau a chynrychioli'r Bartneriaeth yn effeithlon o fewn eu sefydliad eu hunain. | ☐ | e) Eiriolwyr dysgwyr â rôl allweddol yn y Bartneriaeth o ran ymgysylltu, allgymorth a chyfeirio a gwybodaeth am alw a darpariaeth. | ☐ |
| | | | | f) Gall y Bartneriaeth ddefnyddio arbenigedd staff ar draws yr aelodaeth i gyfrannu at y genhadaeth a'r blaenoriaethau allweddol, gan sicrhau arbedion, er enghraifft, ym meysydd rheoli data, marchnata, cynllunio cynnydd. | ☐ | | |
| | | | | g) Y Bartneriaeth yn cyfathrebu'n effeithlon gyda'r ystod lawn o bartneriaid. | ☐ | | |

**Sylwadau:**

# 2 Cynllunio Strategol: Gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Gweledigaeth a nodau'r Bartneriaeth wrthi'n cael eu datblygu, ond ni chawsant eu cytuno na'u cyfathrebu eto. | ☐ | a) Y Bartneriaeth â datganiad gweledigaeh clir a gefnogir gan nodau ac amcanion strategol a chafodd ei gytuno gan bob partner. | ☐ | a) Partneriaid yn rhannu ac yn deall y weledigaeth ac yn alinio gwaith eu sefydliadau i gyflawni hynny. Mae partneriaid unigol yn deall beth yw eu rôl wrth gyfrannu at y cynllun strategol. | ☐ | a) Gwelediaeth a strategaeth y Bartneriaeth yn gyrru gwaith y partneriaid creiddiol yng nghyswllt Dysgu Oedolion yn y Gymuned. | ☐ |
| b) Cynllun strategol ar gyfer y Bartneriaeth, gyda nodau ac amcanion priodol, yn cael ei ddatblygu ond nid yw pob partner wedi cytuno arno eto. | ☐ | b) Y Bartneriaeth â chynllun strategol yn ei le a gytunwyd gan bob partner. Mae'r cynllun yn manylu sut mae gwaith y Bartneriaeth yn cysylltu gyda gyrwyr polisi cenedlaethol a rhanbarthol allweddol e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, blaenoriaethau Medr, polisi ESOL, Ysgolion Bro a gwaith e.e. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau Rhanbarthol Strategol. | ☐ | b) Caiff y cynllun strategol ei gyflenwi drwy gynllun gweithredu a gaiff ei fonitro ar lefel uwch. | ☐ | b) Caiff y weledigaeth a'r genhadaeth eu manylu i grwpiau strategol ehangach ar lefelau lleol a chenedlaethol a chymerir safbwynt rhagweithiol i ymchwilio, dylanwadu a chysylltu gyda gyrwyr polisi newydd neu sydd wedi newid i gynyddu effaith. | ☐ |
| c) Y Bartneriaeth â gweledigaeth a chynllun strategol ond nid yw partneriaid yn eu hadolygu yn rheolaidd. | ☐ | | | c) Caiff y cynllun strategol ei adolygu a'i adnewyddu mewn ymateb i ddata lleol a thystiolaeth am feysydd ar gyfer gwella. | ☐ | c) Gall y Bartneriaeth ddangos ei heffaith yng nghyswllt nodau ac amcanion strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol ehangach. | ☐ |

**Sylwadau:**

# 3 Cynllunio Strategol: Cyllid

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Ni chaiff adnoddau ar gyfer cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned yn lleol eu trin fel rhan o system gydlynol.<br><br>b) Partneriaid yn cynllunio ar sail eu ffrydiau cyllid unigol. Alinio cyllid rhwng partneriaid yn gyfyngedig. | ☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth wedi mapio i adnabod yr holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dysgu oedolion y gymuned o fewn ardal y Bartneriaeth.<br><br>b) Cyllid wedi ei alinio i gefnogi cyflenwi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a chaiff ei adolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebau a chyfleoedd newydd. | ☐<br><br>☐ | a) Partneriaid yn cydweithio i alinio cyllid i gefnogi cyflenwi cynllun strategol yn seiliedig ar fapio a dadansoddiad o'r adnoddau sydd ar gael o fewn yr ardal leol.<br><br>b) Partneriaid yn rhagweithiol wrth adnabod cyfleoedd i ddatblygu cynigion ar gyfer cydweithio ar gyfer cyllid o ffynonellau allanol. | ☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth fel mater o drefn yn adolygu'r ystod cyllid a ddaw i wasanaethau cyhoeddus ar draws yr ardal leol ac yn dynodi lle gellid sicrhau adnoddau i ymestyn a datblygu cyfleoedd dysgu ar gyfer oedolion.<br><br>b) Caiff gwerth am arian ac effaith ar ddysgwyr eu hystyried fel mater o drefn fel rhan o wneud penderfyniadau ar sut y dylid dyrannu cyllid. | ☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 4 Cynllunio Strategol: Strwythurau a phrosesau gweithredu

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Grŵp strategaeth yn cael ei ddatblygu ond nid oes ganddo eto raglen glir o gyfarfodydd. | ☐ | a) Strwythur clir o grwpiau strategol a gweithredol yn ei le i yrru a goruchwylio cyflenwi nodau ac amcanion y Bartneriaeth. Cytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer pob grŵp. | ☐ | a) Strwythur grŵp effeithlon yn ei le, gyda grwpiau gweithredol yn bwydo i waith grŵp strategaeth lefel uchel. | ☐ | a) Y Bartneriaeth â threfniadau gweithio teg, agored a chydlynol ac yn dangos cyfathrebu cryf a lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng partneriaid. | ☐ |
| b) Strwythur grŵp addas a gyfer cyflenwi amcanion strategol a gweithredol y Bartneriaeth yn cael ei ddatblygu. | ☐ | b) Rhaglen reolaidd o gyfarfodydd ar gyfer y gwahanol grwpiau, gyda chynrychiolaeth gan staff o bob partner fel sy'n briodol, er y gall presenoldeb fod yn anghyson. Efallai nad yw protocolau gwaith ar feysydd allweddol tebyg i rannu data wedi eu datblygu'n ddigonol. | ☐ | b) Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd wedi eu trefnu o grwpiau strategol a gweithredol a'u mynychu gan arweinwyr a rheolwyr o bob partner fel sy'n briodol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol at waith y Bartneriaeth. | ☐ | | |
| c) Gall cynrychiolwyr unigol ei chael yn anodd ymrwymo amser o fewn rôl eu swydd i weithgaredd y Bartneriaeth ac ni chafodd model ei gytuno ar gyfer adnoddau ar gyfer gweithio Partneriaeth. | ☐ | c) Caiff cyfrannu at waith y Bartneriaeth ei gydnabod fel cyfrifoldeb o fewn rôl swydd cynrychiolwyr partner a dyrennir rhai adnoddau i weithio Partneriaeth. | ☐ | c) Cafodd protocolau gwaith priodol ar gyfer gweithgareddau'r Bartneriaeth eu datblygu a'u cytuno gan bob partner a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. | ☐ | | |
| | | | | d) Partneriaid yn rhannu adnoddau'r Bartneriaeth drwy fodel cynaliadwy. Partneriaid yn sicrhau y dyrennir adnoddau digonol i weithio Partneriaeth. | ☐ | | |

**Sylwadau:**

# 5 **Cynllunio Strategol:** Arweinyddiaeth

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Rhai arweinwyr lleol yn hybu ymagwedd gydlynol at ddysgu oedolion yn y gymuned ond nid yw yn ei le hyd yma.<br><br>b) Arweinwyr o fewn darparwyr partner yn cydweithio yn effeithiol, ond nid ydynt yn gyson yn hyrwyddo dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau o fewn y Bartneriaeth a chydweithio rhwng staff ar wahanol lefelau fel sy'n briodol. | ☐<br><br>☐ | a) Uwch arweinwyr o fewn darparwyr partner yn rhoi neges gyson i'w staff am bwysigrwydd ymagwedd gydlynol at ddysgu oedolion y gymuned.<br><br>b) Arweinwyr o fewn darparwyr partner yn anelu i fodelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad sy'n cyfrannu at ddeall rolau a chyfrifoldebau o fewn y Bartneriaeth a chydweithio rhwng staff ar wahanol lefelau fel sy'n briodol. | ☐<br><br>☐ | a) Arweinwyr straegol a gweithredol yn gyson ac yn rhagweithiol yn hybu pwysigrwydd ymagwedd gydlynol at ddysgu oedolion yn y gymuned.<br><br>b) Staff ar wahanol lefelau o fewn sefydliadau partner yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y Bartneriaeth ac yn cydweithio'n effeithlon fel sy'n briodol.<br><br>c) Grŵp strategol y Bartneriaeth â chysylltiadau da gyda rhanddeiliaid allanol i gefnogi mwy o gydweithio i fynd i'r afael â materion a blaenoriaethau lleol. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Strategaethau lleol eraill yn cyfeirio at strategaeth y Bartneriaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.<br><br>b) Arweinwyr o fewn y Bartneriaeth yn ffurfio cysylltiadau strategol gyda Phartneriaethau eraill i gefnogi cyflenwi gweithgaredd a rhannu ymarfer yn effeithlon.<br><br>c) Arweinwyr o fewn y Bartneriaeth wedi cysylltu gyda grwpiau strategol ar draws ardal y Bartneriaeth a gallant ddylanwadu ar benderfyniadau a newid sy'n cefnogi effaith cyflenwi Dysgu Oedolion yn y Gymuned. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 6 Cynllunio Strategol: Atebolrwydd

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a)Partneriaid yn cydnabod fod ganddynt gyfrifoldebau unigol ac ar y cyd am Ddysgu Oedolion yn y Gymuned ond heb eu diffinio. | ☐ | a) Grŵp strategaeth penodol â chyfrifoldeb arweiniol am gyflawni amcanion y Bartneriaeth. | ☐ | a) Grŵp strategaeth eang a gweithredol yn gyfrifol am gyflawni amcanion y Bartneriaeth. | ☐ | a) Pob partner yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni deilliannau strategol y Bartneriaeth. | ☐ |
| b) Y grŵp strategaeth wedi dynodi a datblygu rolau a chyfrifoldebau allweddol sy'n sicrhau dyletswyddau rheoli a gweithgareddau partneriaeth effeithlon. | ☐ | b) Partneriaid yn fodlon rhannu cyfrifoldeb, dylunio datrysiadau a gweithredu. | ☐ | b) Risgiau i ddeilliannau strategol yn cael eu dynodi a'u cyfleu'n glir ar draws y Bartneriaeth a strategaeth gadarn yn ei lle i amlygu a gweithredu. | ☐ | b) Partneriaid â pherthynas waith effeithlon, yn ymddiried yn ei gilydd ac yn dal ei gilydd i gyfrif. | ☐ |
| c) Cysylltiadau cyfyngedig gyda rolau a chyfrifoldebau allweddol a fyddai'n galluogi strwythurau atebolrwydd i gael eu datblygu'n effeithiol. | ☐ | c) Partneriaid yn rhannu dealltwriaeth o amcanion, mesurau llwyddiant, risgiau a'u rôl wrth eu cyflawni. | ☐ | | | c) Partneriaid ar bob lefel yn deall y prosesau rheoli risg, yn cynnwys sut i esgyn pryderon am weithrediad effeithlon y Bartneriaeth. | ☐ |

**Sylwadau:**

# 7 **Cynllunio strategol:** Llais dysgwyr

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Partneriaid yn unigol yn casglu a defnyddio llais dysgwyr, ond nid yw dulliau cydweitho a strategol yn eu lle hyd yma. | ☐ | a) Y Bartneriaeth â strategaeth ymgyfraniad dysgwyr.<br><br>b) Dulliau cydweithio yn eu lle ar lefel y Bartneriaeth i gasglu llais dysgwyr (e.e. arolygon blynyddol o ddysgwyr, cyfarfodydd fforwm dysgwyr). | ☐<br><br>☐ | a) Llwybr adrodd clir ar gyfer llais dysgwyr a gasglwyd ar lefel Partneriaeth i'r broses cynllunio strategol.<br><br>b) Cynllunio yn ei le i sefydlu Llysgenhadon Dysgu ac i ddefnyddio cynrychiolwyr dysgu yn y gymuned i gyrraedd cymunedau a chefnogi cyfeirio at ddarpariaeth. | ☐<br><br>☐ | a) Gwybodaeth o weithgareddau llais dysgwyr ar draws y Bartneriaeth yn llywio cynllunio strategol yn gyson.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn gwerthuso effaith llais dysgwyr ac yn defnyddio canfyddiadau hyn i ddatblygu ei ddull gweithredu.<br><br>c) Dysgwyr yn cael eu cynnwys fel partneriaid wrth gynllunio a gwerthuso darpariaeth.<br><br>d) Dysgwyr yn cael eu cynnwys fel partneriaid wrth gynllunio a gwerthuso darpariaeth. | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 8 **Darpariaeth:** Adnabod anghenion

**Dyddiad:**

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Partneriaid yn dadansoddi data lleol i ddynodi anghenion a datblygu eu darpariaeth, ond mae'r wybodaeth a gaiff ei rhannu ar draws y Bartneriaeth yn gyfyngedig. | ☐ | a) Partneriaid yn defnyddio a rhannu data o ystod o ffynonellau i lywio cyd-gynllunio darpariaeth<br><br>b) Y Bartneriaeth yn dynodi bylchau mewn data a gwybodaeth ac yn gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hyn. | ☐<br><br>☐ | a) Ffynonellau data yn cael eu diffinio a chynnal dadansoddiad anghenion yn gyson ar draws y Bartneriaeth i sicrhau fod cynllunio darpariaeth wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn.<br><br>b) Data ar y boblogaeth leol, gwybodaeth am y farchnad lafur a data dysgwyr e.e. WIMD yn cael eu defnyddio'n gyson i lywio cyd-gynllunio darpariaeth.<br><br>c) Cynnal gweithgareddau llais dysgwyr traws-bartneriaeth (e.e. arolygon) i gasglu data ar anghenion dysgu yn y gymuned i lywio cynllunio cwricwlwm.<br><br>d) Y Bartneriaeth â threfniadau yn eu lle i ateb anghenion sy'n dod i'r amlwg a rhoi cymorth addysg oedolion hyblyg, ymatebol a chydlynol (e.e. dileu swydd, ffoaduriaid, bylchau sgiliau). | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth yn flaengar ac yn gwneud defnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur a data arall i ragweld ac ymateb yn gyflym i anghenion newydd ac anghenion sy'n dod i'r amlwg.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn cynllunio'n strategol gyda meysydd partneriaeth eraill i ddiwallu anghenion a chanfod datrysiadau.<br><br>c) Y Bartneriaeth yn amlygu problemau a risgiau posibl i bartneriaid strategol a chomisiynwyr ar lefel genedlaethol a lleol.<br><br>d) Y Bartneriaeth yn ddigon ystwyth i ymateb yn gyflym i anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg a blaenoriaethau, yn defnyddio gwybodaeth a gallued pob partner. | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 9 Darpariaeth: Cynllunio darpariaeth

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Er bod partneriaid unigol yn darparu ystod o gyrsiau i ateb angen lleol, mae diffyg ymagwedd strategol at gynllunio'r ddarpariaeth ar draws y Bartneriaeth.<br><br>b) Cyfateb darpariaeth gyda gyrwyr polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ddarniog. | ☐<br><br>☐ | a) Sefydlwyd grŵp cwricwlwm sy'n cydlynu cynllunio darpariaeth ar draws y Bartneriaeth.<br><br>b) Datblygwyd mapiau cwricwlwm ar draws y Bartneriaeth ar gyfer rhai meysydd pwnc gan gynnwys darpariaeth a gyflwynir gan bartneriaid ehangach (e.e. y trydydd sector, addysg uwch).<br><br>c) Darpariaeth yn cyfateb gyrwyr polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chaiff ei hadolygu'n gyson i sicrhau fod y cynnig yn parhau'n ffres ac yn berthnasol. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Cynllunio cwricwlwm strategol ar draws y Bartneriaeth, gyda mapio a monitro darpariaeth ar draws pob maes pwnc i ddynodi dyblygu a bylchau.<br><br>b) Lle mae'r Bartneriaeth yn dynodi angen lleol na chaiff ei ddiwallu, mae'n gweithio'n effeithlon gyda phartneriaid i fynd i'r afael â hyn a gall ddod â darparwyr newydd fel sy'n briodol. | ☐<br><br>☐ | a) Rheolwyr â mynediad i gymysgedd a chydbwysedd addas o ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion dysgu.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn cynllunio'n strategol gyda Phartneriaethau eraill i ddynodi sut y gellir gwneud cyfleoedd dysgu ar gael i ddysgwyr mewn meysydd pwnc lle mae'r galw lleol yn isel, yn cynnwys drwy ddysgu ar-lein. | ☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 10 **Darpariaeth:** Cefnogi cynnydd

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Nid yw cynllunio cynnydd yn ddigon strategol. Nid yw mapio a datblygu llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr wedi ei ddatblygu'n ddigonol ac ni chaiff ei wneud fel mater o drefn ar draws meysydd pwnc. | ☐ | a) Cafodd mapiau cynnydd eu datblygu ar gyfer rhai meysydd pwnc sy'n mapio ystod a lefel y cyrsiau a gyflwynir gan bartneriaid creiddiol. | ☐ | a) Mapiau cynnydd cynhwysfawr yn eu lle yn dangos llwybrau i, drwy ac o ddarpariaeth Bartneriaeth ar draws yr ystod o feysydd pwnc. Maent yn cynnwys darpariaeth a gyflwynir gan bartneriaid creiddiol ac ehangach i gyflogaeth. | ☐ | a) Dysgwyr yn cael cynnig llyfn a chydlynol, gyda llinell gweld clir o'u pwynt mynediad i ddarpariaeth y Bartneriaeth i nodau dysgu a chyflogaeth. | ☐ |
| b) Caiff uchelgais a nodau dysgwyr eu dynodi gan bartneriaid unigol. | ☐ | b) Partneriaid yn rhoi gwybodaeth i staff rheng-flaen, tiwtoriaid a dysgwyr am lwybrau cynnydd posibl o fewn a thu allan i'r Bartneriaeth ac i mewn i gyflogaeth. | ☐ | b) Sesiynau cynnydd wedi eu strwythuro yn ganolog i bob cwrs ac yn cynnwys staff ar draws y Bartneriaeth fel sy'n briodol. | ☐ | b) Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol yn cael ei ymwreiddio ar draws y bartneriaeth a'i ddefnyddio i gynyddu hyder dysgwyr yn eu sgiliau a dysgu presennol a chaiff ei ddefnyddio i gynorthwyo ymgysylltu a chynnydd | ☐ |
| | | c) Tiwtoriaid yn deall yr ystod llawn o lwybrau cynnydd Partneriaeth gyfan o'u cyrsiau, ac y gallant gynghori a chyfeirio dysgwyr mewn modd priodol. | ☐ | c) Partneriaid yn cynllunio ar y cyd ac yn cyflwyno cymorth ymarferol i baratoi a galluogi dysgwyr i symud ymlaen o ddarpariaeth yn y gymuned i addysg bellach ac addysg uwch. | ☐ | c) Y Bartneriaeth yn cymryd camau i olrhain a mesur cynnydd i ddarpariaeth tu hwnt i'w aelodau ei hun, drwy drefniadau rhannu data ac ymchwil. | ☐ |
| | | | | d) Trefniadau rhannu data yn eu lle i alluogi'r Bartneriaeth i olrhain cynnydd dysgwyr. | ☐ | | |
| | | | | e) Y Bartneriaeth yn bwriadu defnyddio cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol i gael ei ymwreiddio o fewn darpariaeth i alluogi ymgysylltu a chynnydd dysgwyr. | ☐ | | |

**Sylwadau:**

# 11 **Darpariaeth:** Darpariaeth Gymraeg

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Ni chaiff galw lleol am ddysgu drwy gyfrwng Gymraeg ei fapio fel mater o drefn gan y Bartneriaeth.<br><br>b) Cynllunio ar y cyd i sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig. | ☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth yn mapio'r galw am ddarpariaeth Gymraeg ac yn dynodi darparwyr newydd i'r Bartneriaeth i fynd i'r afael â bylchau. | ☐ | a) Y Bartneriaeth yn datblygu cysylltiadau gyda darpar bartneriaid newydd e.e. Menter Iaith, i gryfhau mynediad ar gyfer dysgwyr i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>b) Cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu hyrwyddo ganBartneriaeth i annog y galw.<br><br>c) Dewis anffurfiol ac achlysurol yn cael eu hannog ar draws y Bartneriaeth, gydag adnoddau ar gael i staff i helpu cynyddu hyder a sgiliau mewn defnyddio termau Cymraeg. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Gall dysgwyr gael mynediad i ystod o ddarpariaeth Gymraeg, gyda llwybrau cynnydd wedi eu dynodi.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn cynllunio'n strategol gyda Phartneriaethau eraill i wneud darpariaeth Gymraeg ar gael i ddysgwyr mewn ardaloedd o alw isel, yn cynnwys drwy ddysgu ar-lein.<br><br>c) Tiwtoriaid ar draws y Bartneriaeth â mynediad i ddysgu proffesiynol pwrpasol i ddatblygu eu sgiliau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>d) Y Bartneriaeth yn cynllunio ei recriwtio i gynyddu nifer yr ymarferwyr a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog lle mae'n bosibl. | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

## 12 **Cyrraedd ac ennyn diddordeb dysgwyr**: Marchnata a hyrwyddo **Dyddiad:**

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Peth marchnata a hyrwyddo ar y cyd, ond mae hyn yn ad hoc ac anghyson.<br><br>b) Gwefan a llwyfannau partneriaid unigol yn cynnwys manylion eu darpariaeth ond nid oes cysylltiad rhyngddynt. | ☐<br><br>☐ | a) Datblygwyd strategaeth farchnata ar draws y Bartneriaeth. Mae hyn yn cefnogi marchnata a hyrwyddo ar y cyd ar gyfer darpariaeth ac yn helpu dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr i gael mynediad i drosolwg o gynnig y cwrs a llwybrau cynnydd. | ☐ | a)Y Bartneriaeth ag is-grŵp hyrwyddo a marchnata penodol sy'n defnyddio arbenigedd i adnabod a datblygu cyfleoedd i hyrwyddo dysgu mor eang ag sydd modd drwy sianeli amrywiol.<br><br>b) Partneriaid yn cydweithio i uchafu effaith lleol ymgyrchoedd hyrwyddo cenedlaethol e.e. yr Wythnos Addysg Oedolion. | ☐<br><br>☐ | a) Darpariaeth ar draws y Bartneriaeth yn cael ei farchnata fel un cynnig. Mae un wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rhoi mannau cyffredin o wybodaeth a mynediad i breswylwyr ar yr ystod lawn o ddarpariaeth partneriaid.<br><br>b) Ystod helaeth o weithgaredd hyrwyddo yn cael eu defnyddio a'u hadolygu i dargedu oedolion yn cynnwys gweithio gyda Llysgenhadon Dysgwyr.<br><br>c) Dulliau yn cael eu eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu gwahanol grwpiau targed a'u cymhellion a rhwystrau i ddysgu. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 13 Cyrraedd ac ennyn diddordeb dysgwyr: Allgymorth

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Darparwyr dysgu yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau ymgysylltu tebyg i ffeiriau dysgu a sesiynau blasu mewn lleoliadau allgymorth. | ☐ | a) Darparwyr dysgu yn cyflwyno gweithgareddau ymgysylltu yn yr un lleoliad, yn cynnwys camau cyntaf mewn dysgu, mewn safleoedd partneriaid. | ☐ | a) Staff rheng-flaen yn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus eraill, e.e. ysgolion, tai, cyngor ar ddyledion, ac yn medru cyfeirio darpar ddysgwyr at ddarpariaeth a gyflwynir drwy'r Bartneriaeth.<br><br>b) Gweithgaredd allgymorth yn cael ei gynllunio i ddod â chyngor a gwybodaeth a sesiynau blasu i gymunedau o ddiddordeb a chymunedau daearyddol. | ☐<br><br>☐ | a) Partneriaid yn cydweithio i ddatblygu ffyrdd newydd o gyrraedd dysgwyr, yn cynnwys dulliau cymunedol tebyg i Lysgenhadon Dysgu a Chynrychiolwyr Dysgu yn y Gymuned. | ☐ |

**Sylwadau:**

# 14 **Ansawdd:** Mesur deilliannau ac effaith

**Dyddiad:**

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Darparwyr unigol yn mesur deiliannau dysgwyr tebyg i gwblhau, cyrhaeddiad a chynnydd, ond ni chafodd mesurau perfformiad ar y cyd ar gyfer y Bartneriaeth eu datblygu hyd yma.<br><br>b) Caiff deilliannau dysgwyr ar draws y Bartneriaeth eu holrhain mewn dull cyffredinol gan eu bod ar gam cynnar.<br><br>c) Cydnabyddir fod angen dull cydlynol o gofnodi a mesur symudiadau dysgwyr ar draws neu rhwng lefelau. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth yn cynnal dadansoddiad ar y cyd o ddata deilliant dysgwyr, ac wedi cytuno ar fesurau a thargedau perfformiad ar y cyd.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn gweithio i ddatblygu dull o olrhain cynnydd dysgwyr yn fwy effeithlon drwy ei darpariaeth.<br><br>c) Cynhaliwyd peth dadansoddiad i ddeall gwahaniaethau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr o wahanol ddemograffeg a rhai gyda nodweddion gwarchodedig. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Y Bartneriaeth ar y cyd yn mesur allbynnau a deilliannau ar fesurau perfformiad a gytunwyd ac yn adrodd tystiolaeth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.<br><br>b) Pob partner yn deall beth yw eu cyfraniad unigol i gyflawni targedau'r Bartneriaeth ar gyfer deilliannau dysgwyr.<br><br>c) Y Bartneriaeth â model effeithlon yn ei le i olrhain cynnydd dysgwyr drwy ei darpariaeth.<br><br>d) Caiff y canfyddiadau o ddeilliannau dysgwyr eu hadolygu yn gyson i ddynodi blociau a rhwystrau ar lefel dysgwyr a chwrs, a galluogi partneriaid i gydweithio i ddatblygu datrysiadau. | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Gall y Bartneriaeth ddangos synergedd mewn meysydd tebyg i ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth staff ar draws darparwyr partner neu greu arbedion cost.<br><br>b) Gall y Bartneriaeth gael sgyrsiau tryloyw o ymddiriedaeth am ddeilliannau dysgwyr, cytuno ar weithredu unioni lle bo angen a defnyddio'r arbenigedd o fewn a thu hwnt i'r Bartneriaeth i gefnogi gwelliannau lle mae angen.<br><br>c) Dadansoddiad o ddata ar gynnydd dysgwyr i fewn, o fewn a thu hwnt i ddarpariaeth a gynigir drwy'r Bartneriaeth yn dangos effeithiolrwydd cynllunio ar y cyd.<br><br>d) Y Bartneriaeth yn gwneud defnydd strategol o ddata deilliannau i arddangos gwerth ac effaith dysgu oedolion yn y gymuned i flaenoriaethau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.<br><br>e) Tystiolaeth glir o effaith gadarnhaol prosesau gwella ansawdd ar draws y Bartneriaeth ar addysgu a dysgu.<br><br>f) Y Bartneriaeth yn amlygu effaith darpariaeth drwy astudiaethau achos dysgwyr, seremonïau gwobrwyo a chysylltu gyda chyfleoedd ar gyfer cydnabyddiaeth genedlaethol. | ☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 15 **Ansawdd:** Gwella Ansawdd

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Systemau ar draws y bartneriaeth ar gyfer cael mynediad a defnyddio data i fod yn sylfaen i welliant ansawdd a gaiff eu rannu heb eu datblygu'n ddigonol. | ☐ | a) Strwythur y Bartneriaeth yn cynnwys grŵp penodol gyda chyfrifoldeb am ansawdd. | ☐ | a) Y Bartneriaeth â phrosesau hunan-werthuso cadarn ac wedi eu cynllunio'n dda y mae pob partner yn cyfrannu atynt, sydd wedi eu seilio ar systemau effeithlon, i gael mynediad i ddata a'i ddefnyddio. | ☐ | a) Y Bartneriaeth yn defnyddio tystiolaeth o'i phrosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd i ymwreiddio diwylliant o ddysgu a datblygu parhaus a chaiff hynny ei rannu gan bob partner. | ☐ |
| b) Cynllunio cydweithio ar wella ansawdd ar gam cynnar. | ☐ | b) Partneriaid wedi datblygu a chytuno ar gynllun lefel uchel ar y cyd ar gyfer gwella ansawdd. | ☐ | b) Grŵp ansawdd y Bartneriaeth yn monitro ac adolygu ei hadroddiad hunanwerthuso a'i chynllun gwella ansawdd. | ☐ | b) Llais dysgwyr yn rhoi tystiolaeth glir o effaith cydweithio ar brofiad dysgwyr. | ☐ |
| c) Dim neu fawr o arsylwi neu fonitro ar draws y Bartneriaeth i rannu dealltwriaeth o rennir o ansawdd darpariaeth drwyddi draw. | ☐ | c) Partneriaid creiddiol yn cymryd rhan mewn ymweliadau ar y cyd, arsylwadau ac yn rhannu dealltwriaeth o ansawdd darpariaeth drwyddi draw. | ☐ | c) Blaenoriaethau clir ar gyfer gwella ansawdd wedi eu diffinio a dynodi camau gweithredu i gyflawni hyn. Llais dysgwyr yn ganolog i ddull y Bartneriaeth o wella ansawdd. | ☐ | c) Gall staff ar draws y Bartneriaeth gydweithio a rhannu arbenigedd er mwyn gwella eu hymarfer a chefnogi ei gilydd. | ☐ |
| | | | | d) Arfer da yn cael ei ddynodi a'i rannu'n systematig ar draws y Bartneriaeth. | ☐ | | |
| | | | | e) Llais dysgwyr yn ganolog i ddull y Bartneriaeth o wella ansawdd. | ☐ | | |

**Sylwadau:**

# 16 **Gweithlu:** Recriwtio a chadw tiwtoriaid **Dyddiad:**

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Cynllun gweithio Partneriaeth yn ei le. | ☐ | a) Caiff gofynion a disgwyliadau cyffredin yng nghyswllt cymwysterau a phrofiad tiwtoriaid eu cytuno ar draws y Bartneriaeth.<br><br>b) Cynhelir arolygon cyson o staff ar draws y Bartneriaeth i ddynodi problemau, pryderon ac awgrymiadau fel y gellir mynd i'r afael â rhwystrau cadw tiwtoriaid. | ☐<br><br>☐ | a) Partneriaid yn rhannu adnoddau tiwtoriaid ar draws y Bartneriaeth.<br><br>b) Caiff recriwtio a chadw gweithlu ei adolygu ar draws y Bartneriaeth ynghyd â chynllun i amlygu risg.<br><br>c) Cynllunio recriwtio tymor canol i hirdymor yn ei le i'r Bartneriaeth i helpu mynd i'r afael â bylchau a ragwelir yn y dyfodol, anghenion sgiliau newydd ac i sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ | a) Caiff partneriaid newydd eu dynodi ac ymgysylltu i fynd i'r afael â bylchau mewn galluoedd gweithlu, yn cynnwys partneriaid diwydiant a darparwyr dysgu ar-lein.<br><br>b) Y Bartneriaeth yn creu cysylltiadau strategol gyda phartneriaethau mewn ardaloedd eraill i rannu adnoddau gweithlu.<br><br>c) Y Bartneriaeth yn cysylltu gydag Addysgwyr Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd o amgylch recriwtio gweithlu. | ☐<br><br>☐<br><br>☐ |

**Sylwadau:**

# 17 **Gweithlu:** Dysgu Proffesiynol

| Dechreuol | | Yn datblygu | | Wedi sefydlu | | Ymestynnol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a) Partneriaid creiddiol yn cytuno i gydweithio ar faterion datblygu proffesiynol a pheth hyfforddiant ar y cyd yn digwydd. | ☐ | a) Caiff anghenion datblygu proffesiynol eu mapio ar draws y Bartneriaeth. | ☐ | a) Caiff cynnig dysgu proffesiynol y Bartneriaeth gyfan ei lywio ar dystiolaeth o angen o weithgareddau sicrwydd ansawdd a gwella. | ☐ | a) Y Bartneriaeth yn cytuno ar isafswm gofyniad datblygu proffesiynol parhaus ar gyfer staff sy'n cyflwyno darpariaeth greiddiol. | ☐ |
| | | b) Darparwyr o fewn y Bartneriaeth yn rhannu arfer da. | ☐ | b) Staff pob darparydd sy'n cyflawni ar ddarpariaeth greiddiol y Bartneriaeth â mynediad i lwyfan dysgu cyffredin i rannu arfer da, hyfforddiant ac adnoddau. | ☐ | b) Cynnig dysgu proffesiynol y Bartneriaeth yn cefnogi cyflawni ei nodau strategol. | ☐ |
| | | c) Y Bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol ar y cyd i arweinwyr, rheolwyr, tiwtoriaid a staff eraill ar draws y Bartneriaeth. | ☐ | c) Caiff datblygu proffesiynol parhaus creiddiol gorfodol, tebyg i ddiogelu a iechyd a diogelwch, ei ddatblygu a'i gynnig ar y cyd ar draws y Bartneriaeth i wneud y defnydd gorau o arbenigedd ac adnoddau. | ☐ | c) Y Bartneriaeth yn dynodi cyfleoedd ar gyfer meysydd newydd o ddysgu proffesiynol a chyfleoedd i rannu gwybodaeth ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | ☐ |
| | | | | d) Staff ar draws y Bartneriaeth yn cael cyfleoedd i gydweithio, er enghraifft ar ymchwil gweithredu, hyfforddiant a mentora, cynadleddau a chyfnewid gwybodaeth. | ☐ | d) Y Bartneriaeth yn gweithio'n strategol gyda phartneriaethau mewn ardaloedd eraill i rannu adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. | ☐ |
| | | | | | | e) Y Bartneriaeth yn gweithio'n strategol gyda phartneriaethau mewn ardaloedd eraill i rannu adnoddau dysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. | ☐ |
| | | | | | | f) Y Bartneriaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymheiriaid ymysg ei weithlu tiwtoriaid. | ☐ |

**Sylwadau:**

# Cyfeiriadau


- Partneriaid Addysg Oedolion Cymru (2022) Adroddiad Effaith 2022.
- Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Department for Business, Innovation and Skills (2012) Community Learning Trust Pilots: Prospectus.
- Department for Business, Innovation and Skills (2014) Community Learning Trust Pilots: Evaluation.
- Estyn (2022) Beth rydym yn ei arolygu: Arolygiadau peilot Dysgu Oedolion yn y Gymuned o 2022.
- Estyn (2022) Sut yr arolygwn: Canllawiau ar gyfer arolygu Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.
- Estyn (2022) Adroddiad Arolwg Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint.
- Estyn (2022) Sefydlu Partneriaeth newydd Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Wrecsam a Sir y Fflint: astudiaeth achos.
- Estyn (2023) Adroddiad Arolwg Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro.
- Estyn (2023) Trawsffurfio Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd a'r Fro: astudiaeth achos.
- Estyn (2023) Adroddiad Arolwg Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent Fwyaf.

- Estyn (2023) Dysgu Oedolion yn y Gymuned: adroddiad sector 2022-3.
- Holex (2019) Adult Community Education. Supporting Place and People: characteristics of success.
- Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019) Establishing and Developing ESOL Local Partnerships: an effective practice guide.
- Sefydliad Dysgu a Gwaith (2023) CLF Integration Hubs: Employment and skills journey mapping and user needs analysis.
- Sefydliad Dysgu a Gwaith (2023) Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned: papur trafod (adroddiad nas cyhoeddwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru)
- Scottish Government (2012) Strategic Guidance for Community Planning Partnerships: Community learning and development.
- Llywodraeth Cymru (2012) Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector dysgu oedolion yn y gymuned.
- Llywodraeth Cymru (2018) Addysg Oedolion yng Nghymru: ymgynghoriad ar gyflenwi a strwythur cyllido.
- Llywodraeth Cymru (2018) Addysg Oedolion yng Nghymru: Datganiad polisi.
- Llywodraeth Cymru (2022) Cenedl Ail Gyfle: lle nad yw hi byth yn rhy hwyr i ddysgu (Araith gan y Gweinidog Addysg i gynhadledd genedlaethol)
- Llywodraeth Cymru (2023) Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynau Cymdeithasol.



Cafodd yr offeryn hwn ei gynhyrchu ar y cyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Phartneriaethau lleol Dysgu Oedolion yn y Gymuned, gyda mewnbwn gan randdeiliaid cenedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, Addysg Oedolion Cymru, ColegauCymru, Gyrfa Cymru a Holex.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

PARTNERIAETH CYMRU DYSGU OEDOLION
ADULT LEARNING PARTNERSHIP WALES